Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

grantiau a thrwyddedau
grants and licences

COETIROEDD GWELL I GYMRU

BETTER WOODLANDS FOR WALES

NEWYDDLEN

Rhifyn 7 – Ebrill 2007

Cynnwys:

- Nodyn y Golygydd
- Cymeradwyo Hawliadau a Chontractau
- Testun y Cynllun Gweithrediadau
- Dogfennau Arweiniad a Diweddariad i Wefan CGG CCC
- Trwyddedau Torri Coed a Choetiroedd Gwell i Gymru
- Grantiau Adennill ein Hetifeddiaeth Anghofiedig yn codi i 90%
- Adborth o Gyfarfod y Grŵp Technegol
- Cael cymorth!
- Cynllunwyr Newydd
- Hyfforddiant Gorfodol a'r Newyddion Diweddaraf
- Newyddion Diweddaraf am y cynlluniau CGG
- Ffioedd Cyfnerthu
- Ceisiadau am Fapiau
- Manylion Cysylltu

Nodyn y Golygydd

Mae baich achosion Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG/BWW) yn cynyddu, ac mae yna tua 430 o achosion yn y system, llawer ohonynt wedi cyrraedd cam y 'cynllun rheoli'. Mae tri ar ddeg o achosion wedi cael eu cymeradwyo, a disgwylir y bydd y nifer hwn yn cynyddu'n gyflym wrth i'r tymor plannu ddod i ben a phan fydd gan y cynllunwyr fwy o amser i gwblhau eu cynlluniau. Bu peth oedi o ran cymeradwyo contractau CGG yn ffurfiol gan nad yw'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG/RDP) wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad eto. Fodd bynnag, mae ein cyllideb wedi cael ei chymeradwyo ac mae yn ei lle, ac nid ydym wedi derbyn gormod o geisiadau, felly daliwch i'w hanfon. Byddwn yn talu am y gwaith o baratoi'r cynlluniau rheoli cyn gynted ag y byddwn wedi derbyn y cynllun. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydweithio â'n gilydd dros y misoedd nesaf i sicrhau bod CGG yn dal yn llwyddiant.

Mae staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru yma i'ch helpu, felly cofiwch godi'r ffôn er mwyn cael gair â hwy os oes gennych unrhyw broblemau neu bryderon. Yn fwy na dim, rydym yn gofyn i chi fwrw ymlaen â'r cynlluniau CGG.

Cymeradwyo Hawliadau a Chontractau

Nid yw Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gallu cymeradwyo contractau CGG ar hyn o bryd gan nad yw'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) wedi cael ei gymeradwyo. Mae'r CDG yn cael ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n darparu'r caniatâd angenrheidiol i dalu am yr holl grantiau tir-seiliedig yng Nghymru. Felly, mae'r oedi o ran cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Gwledig yn effeithio ar bob contract newydd sy'n gysylltiedig â grantiau tir-seiliedig, ac nid yw'r broblem hon wedi'i chyfyngu i faes coedwigaeth.

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi sefydlu proses dros dro i ganiatáu i grantiau ar gyfer paratoi cynlluniau CGG gael eu talu cyn gynted ag y bydd y cynllun wedi cael ei gyflwyno i CCC i'w gymeradwyo, os yw'n cwrdd â'r safon angenrheidiol. Gobeithir felly y bydd perchenogion a chynllunwyr yn parhau i baratoi cynlluniau, gan wybod y bydd CCC yn talu am y cynllun yn gyflym.

Mae'n bwysig felly, o safbwynt llwyddiant tymor-byr CGG, fod cynllunwyr yn dal ymlaen i baratoi cynlluniau ac nad ydynt yn gwangalonni oherwydd y sefyllfa hon. Mae'r cynllun yn mynd o nerth i nerth ac mae 13 o gynlluniau bellach wedi cael eu cymeradwyo. Nid yw mater y Cynllun Datblygu Gwledig yn effeithio ar gyllideb Comisiwn Coedwigaeth Cymru, a gymeradwywyd ar gyfer 07/08 ac sydd heb gael ei chlustnodi'n llawn eto. Os yw cynllunwyr yn cwblhau eu cynlluniau ac yn eu cyflwyno i

Y diweddaraf am y grantiau plannu newydd

Arweiniad ar sut i wneud cais am Gyfeirnod Cwsmer (CC/CRN) a Rhif Daliad Plwyf Sirol (RhDPS/CHP) yn awr ar gael ar wefan CCC

Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i'w cymeradwyo, byddant yn gallu hawlio grantiau ar gyfer gweithredu'r cynllun cyn gynted ag y bydd y Cynllun Datblygu Gwledig wedi cael ei gymeradwyo.

Plannu Newydd:

Mae manylion y grantiau dros dro ar gyfer sefydlu coetiroedd newydd ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Nid yw CCC yn gallu cyflwyno'r grantiau hyn ar hyn o bryd oherwydd ansicrwydd ynghylch y Cynllun Datblygu Gwledig a threfniadau gweinyddol gyda Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Byddwn yn cysylltu â chi pan wyddwn yn bendant pryd y gall y grantiau hyn gael eu cyflwyno. Gwnaed cynnydd sylweddol o safbwynt datblygu'r sgriniau, ac mae'n dal yn fwriad gennym i gyflwyno'r broses gwneud cais i ganiatáu plannu yn ystod tymor 07/08.

Os oes gennych chi waith plannu newydd i'w wneud mae'n rhaid i chi:

- ddewis plannu newydd fel y math o waith yn eich cais
- creu is-adran yn y Cynllun Rheoli ar gyfer yr ardal blannu newydd

Bydd angen gwneud newid syml i geisiadau a gymeradwywyd er mwyn ychwanegu'r gwaith plannu newydd.

Testun y Cynllun Gweithrediadau

I alluogi Comisiwn Coedwigaeth Cymru i gydymffurfio â Rheoliadau yr Undeb Ewropeaidd sy'n rheoli Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 bydd yn rhaid i ni addasu'r telerau ac amodau yng Nghynllun Gweithrediadau Coetiroedd Gwell i Gymru. Yn fwyaf arbennig, mae'n rhaid i'r telerau ac amodau hyn egluro bod peth o'r grant yn dod o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, a bod CGG yn ddibynnol ar y gwahanol reoliadau sy'n rheoli gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae hyn yn golygu, os bydd rheoliadau'r UE yn newid ar unrhyw adeg, y bydd angen newid y telerau ac amodau hyn i adlewyrchu'r newidiadau dan sylw. Felly, ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y contract CGC, gallwn fod yn sicr fod y fersiwn ddiweddaraf o'r ddogfennaeth a'r rheoliadau cysylltiedig mewn grym.

Y prif newidiadau yw'r newidiadau i gymal 22, ynghyd â newidiadau bach o ran geiriad i gymalau 9, 10, 12, 14 a 15.

Cyhoeddir gwybodaeth fanwl cyn bo hir ar wefan CGG a fydd yn ymdrin â'r newidiadau i'r telerau ac amodau a'r dulliau rheolau a'r cosbau. Teitl y dogfennau yw 'Better Woodlands for Wales, Compliance with the Rural Development Plan – Controls and Penalties' a 'Better Woodlands for Wales – Changes in Terms and Conditions April 2007'.

Dogfennau Arweiniad a Diweddariad i Wefan CGG CCC

Ers y newyddlen ddiwethaf rydym wedi bod yn cynhyrchu arweiniad i'ch helpu i lenwi'r ffurflen gais ar gyfer y Rhif Daliad Plwyf Sirol (RhDPS/CPH) a/neu'r Cyfeirnod Cwsmer (CC/CRN). Rydym hefyd wedi cynhyrchu papur cwestiwn ac ateb er mwyn darparu arweiniad pellach ar y broses gofrestru. Mae'n bleser gennym gynnwys y rhain gyda'r newyddlen ar gyfer y mis hwn.

Mae'r holl wybodaeth ynghylch dod yn Gynlluniwr Rheoli neu'n Aseswr Arbenigol ar gael yn ddwyieithog ar Wefan Llyfrgell Gyfeiriol Coetiroedd Gwell i Gymru ynghyd â'r ddogfen eglurhaol sydd wedi'i diweddaru: 'GOH01 – Arweiniad ar sut i wneud cais cychwynnol/Guide on how to make an initial application'.

Yma hefyd y ceir Llythyr Awdurdod swyddogol Coetiroedd Gwell i Gymru sy'n galluogi asiantau i weithredu ar ran perchenogion wrth wneud hawliad.

Trwyddedau Torri Coed a Choetiroedd Gwell i Gymru

Rydym yn sylweddoli y bydd angen i nifer ohonoch, yn ystod camau cyntaf Coetiroedd Gwell i Gymru, dorri coed cyn i'r cynllun CGG gael ei gymeradwyo. Er nad yw hyn yn ddelfrydol o safbwynt CGG mae'n iawn i chi wneud hyn. Gall ymgeiswyr wneud ceisiadau annibynnol am Drwydded Torri Coed mewn perthynas â thir y mae cynllun CGG yn cael ei baratoi ar ei gyfer. Fodd bynnag, bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gofyn i'r cais am Drwydded gael ei dynnu'n ôl os yw'n ymddangos i CCC ei fod yn achub y blaen ar benderfyniadau (sy'n sylfaenol i egwyddorion ac ethos CGG) y dylid eu gwneud fel rhan o'r broses gynllunio. Os na chaiff y cais ei dynnu'n ôl, bydd y cais CGG yn cael ei wrthod a'i archifo (yn Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein). Gellir adfywio'r cais ar adeg arall. Ni fydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gwneud unrhyw daliadau ar gyfer paratoi'r cynllun nes bod y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan CCC. Hyd yn oed pan fo CCC yn derbyn nad yw'r cais am Drwydded yn gwrthdaro â CGG bydd yn disgwyl i fap torri coed ac ailstocio gael ei gyflwyno fel rhan o'r cais am Drwydded. Cyhoeddir Trwyddedau Annibynnol mewn perthynas â CGG am 1 flwyddyn yn unig.

Grantiau Adennill ein Hetifeddiaeth Anghofiedig (AEHA/ROFI) wedi codi i 90%

Grantiau Adennill ein Hetifeddiaeth Anghofiedig yn codi i 90%

Rydym eisoes, mewn rhifynnau blaenorol o Newyddlen Coetiroedd Gwell i Gymru, wedi crybwyll y prosiect Amcan 1 Grantiau Adennill ein Hetifeddiaeth Anghofiedig (AEHA/ROFI) sy'n darparu grantiau ar gyfer gwaith i adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PSCH/PAWS) yn goetiroedd brodorol. Mae'r grantiau ar gyfer gwaith dan y prosiect hwn wedi cynyddu i 90% o'r costau. Gallwch newid contract Cynllun Grant Coetir presennol (os nad yw dyddiad y contract wedi dod i ben) er mwyn ychwanegu gwaith sy'n gymwys ar gyfer Grantiau AEHA neu gallwch wneud cais newydd drwy CGG. Rhaid i bob safle fod o fewn ardal Amcan 1; rhaid cael asesiad PSCH ar gyfer pob safle dros 3 hectar o faint ; a rhaid defnyddio'r cyfrifwr Grant Gwella Coetir i gostio'r holl waith. Rhaid hawlio pob grant cyn 31 Mawrth 2008.

Os ydych am fanteisio ar y cynnig hwn, dylech gysylltu ag Yvonne Spencer ar 0845 604 0845 neu anfon e-bost at yvonne.spencer@forestry.gov.uk. Bydd Yvonne yn anfon ffurflen syml atoch y bydd yn rhaid i chi ei llenwi a'i dychwelyd atom. Y rhai cyntaf i wneud cais fydd yn cael y grantiau. Mae rhan helaeth o'r arian AEHA eisoes wedi'i chlustnodi.

Rhai pwyntiau i'w cofio:

- Nid oes angen gwneud cais ar wahân am arian AEHA. Defnyddiwch y broses gwneud cais CGG neu newidiwch Gynllun Grant Coetir presennol.
- Bydd CCC yn ystyried safle a adferwyd yn goetir brodorol pan fo dros 50% o orchudd coed brodorol yn y canopi.
- Mae safleoedd sy'n cael eu hadfer dros gyfnod o amser yn dal yn gymwys i dderbyn arian AEHA.
- Mae gwaith ar draciau, teneuo coed aneconomaidd a rheoli planhigion ymledol yn gymwys.

Adborth o Gyfarfod y Grŵp Technegol

Cafodd y Grŵp Technegol ei sefydlu i ddarganfod rhwystrau a phroblemau technegol a ffyrdd o'u datrys.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth a thynnwyd sylw at rai materion pwysig. Rhai o'r problemau y cyfeiriwyd atynt oedd mapiau ffin, cymeradwyo Asesiadau Arbenigol a gwneud taliadau i Aseswyr Arbenigol.

Dyddiau hyfforddi gorfodol wedi'u trefnu i Gynllunwyr Rheoli

Dyddiadau hyfforddi Aseswyr Arbenigol i'w cadarnhau yn fuan

Gellir gweld cofnodion y cyfarfod, sy'n cynnwys disgrifiadau mwy manwl o'r materion dan sylw a sut y bwriedir ymdrin â hwy, yn fuan.
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 1 Mai 2007, ac anogir Cynllunwyr ac Arbenigwyr i gysylltu â'u cynrychiolwyr os ydynt yn dymuno codi unrhyw fater. Eich cynrychiolwyr yw:

- **Graham Heath - Perchennog/asiant**
  Ffôn: 01558 685432 neu 07817 869647
  E-bost: gheath@btconnect.com
- **Julian Miller - Miller Land Management**
  Ffôn: 01248 601205 neu 07806 567949.
  E-bost: jools@millerlandmanagement.co.uk
- **Rob Marsh - Rob Marsh Woodland Services**
  Ffôn: 01970 871951
  E-bost: rob@stumpmonkey.com
- **Iwan Parry - Coed Cymru**
  Ffôn: 01646 624831
  E-bost: iwanp@pembrokeshirecoast.org.uk

Cael cymorth!

Os oes angen cymorth arnoch gyda phroblemau neu faterion CGG dylech gysylltu â'r Swyddog Coetir sy'n gyfrifol am yr achos yr ydych chi'n gweithio arno. Bydd y Swyddog Coetir yn ymdrin â'r broblem lle bo hyn yn bosibl neu'n dod yn ôl atoch gydag ateb i'r broblem neu ffordd o'i datrys. Os nad yw'n gallu gwneud hyn, bydd yn eich trosglwyddo i'r Tîm Gwasanaethau Technegol neu ymgynghorydd technegol. Os yw'r Swyddog Coetir yn teimlo bod y mater yn ymwneud â phroblem ehangach o fewn y broses CGC, mae'n bosibl y bydd yn codi'r mater gydag aelod o'r Grŵp Technegol neu'n gofyn i chi gysylltu â'r Grŵp yn uniongyrchol. Bydd unrhyw faterion polisi yn cael eu hanfon ymlaen i'r Grŵp Rhanddeiliaid.

Cynllunwyr Newydd

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn ddiweddar wedi bod yn cynnal sesiynau hyfforddi parhaus ar gyfer Cynllunwyr Rheoli, a disgwylir y bydd 10 unigolyn arall yn dod yn Gynllunwyr Rheoli cymeradwy. Cynhelir y sesiynau hyfforddi nesaf ym mis Medi 2007, ychydig ar ôl y dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau am eleni, sef 30 Mehefin 2007 (gweler rhifyn 5 am ragor o wybodaeth). Dylid cyfeirio pob cais i sylw Sam Davies a'i anfon i'r cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y Newyddlen. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar sut i ddod yn Gynlluniwr Rheoli yn http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6j2h6r a gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais 'A2 BWW Application form for Management Planners'.

Hyfforddiant Gorfodol a'r Newyddion Diweddaraf

Trefnwyd digwyddiadau hyfforddi gorfodol ychwanegol ar gyfer y Cynllunwyr Rheoli presennol. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal o fewn cyfnod o dair wythnos mewn gwahanol leoliadau drwy Gymru (Llanymddyfri, Aberystwyth a Chlawddnewydd) a byddant yn rhoi cyfle i Gynllunwyr gyfnerthu eu hyfforddiant cychwynnol. Dyma'r dyddiadau:

Lleoliad	Dyddiad
Swyddfa CCC, Aberystwyth	Dydd Llun 7 Mai
	Dydd Mawrth 8 Mai
Swyddfa CCC, Llanymddyfri	Dydd Llun 14 Mai
	Dydd Mawrth 15 Mai
	Dydd Llun 28 Mai
Swyddfa CCC Rhuthun	Dydd Llun 21 Mai
	Dydd Mawrth 22 Mai

Byddwch cystal â chysylltu â Sam Davies i drefnu lle ar un o'r dyddiadau uchod (gweler isod am y manylion cysylltu).

Rydym hefyd yn trefnu dyddiadau hyfforddi ar gyfer Aseswyr Arbenigol. Bydd hyn yn digwydd rywbryd yn ystod y gwanwyn, a chewch wybod am y dyddiadau maes o law.

Newyddion Diweddaraf am y cynlluniau CGG

Ers lansio Coetiroedd Gwell i Gymru yn 2006, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi derbyn 264 o geisiadau - cynnydd o 275% ers mis Medi 2006. Mae nifer y cynlluniau a gymeradwywyd bellach wedi codi i 13.

Ffioedd Cyfnerthu

Nodyn i'ch atgoffa y bydd yn rhaid hawlio'r holl ffioedd cyfnerthu cyn 31 Awst 2007. Mae hyn yn golygu, os ydych am hawlio'r uchafswm o £2,000, y bydd yn rhaid i chi gyflwyno cynlluniau sydd â chyfanswm grant paratoi cynllun am y swm hwn cyn Awst 31.

Ceisiadau am Fapiau

Pan fyddwch yn anfon e-bost at bww.ts@forestry.gsi.gov.uk gyda Chais am Fap, a fyddech cystal â gofyn am un map ar y tro.

Rhaid hawlio Ffioedd Cyfnerthu cyn 31 Awst 2007

Manylion Cysylltu

- Ymholiadau CGG cyffredinol: Ffoniwch 0845 604 0845 neu mewngofnodwch i www.forestry.gov.uk
- Ymholiadau technegol: E-bost bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
- Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
- Ymholiadau ynghylch y Cyfrifwr Cost CGC: E-bost wig.costings@forestry.gsi.gov.uk
- Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: E-bost Sam.davies@forestry.gsi.gov.uk
- Dylid anfon ceisiadau Cynlluniwr Rheoli at Sam Davies, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cwrt Cantref, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 7AX

Rhifyn Nesaf

Mehefin 2007

Gellir cael y rhifyn hwn a hen rifynnau ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru www.forestry.gsi.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales